

Lle Cydlynol

Cymunedau prydfferth, dichonadwy ac wedi'u cysylltu'n dda.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae yna ffocws dealladwy ar wella rhagolygon canol y dref fel hwb i gyfle economaidd a mynediad i wasanaeth. Mae datblygiad yr ardal adwerthu, bwyd a pharciau hamdden ar gyrion y dref hefyd yn effeithio ar brydfferthwch a dichonoldeb canolfannau ardal a phentref. Yn yr ardaloedd mwy gwledig mae mynediad i siopau lleol a gwasanaethau hamdden wedi'u cyfyngu'n ddirfawr gyda chynigion o siopau cymunedol ac amwynder lleol e.e. swyddfeydd Post yn cau oherwydd diffyg defnydd lleol.

Mae lleihad yn y mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn codi o newidiadau diweddar i lwybrau teithio bysiau yn atgyfnerthu ymhellach y ddibyniaeth ar deithio mewn car i gael mynediad i wasanaethau sylfaenol gyda phryderon o ganlyniad o gwmpas parcio i drigolion, tagfeydd, ansawdd aer a goryrru.

Mae pryderon ynglŷn â'r defnydd o gyffuriau yn gyhoeddus ac ymddygiad gwrth gymdeithasol mewn rhai ardaloedd yn galw am well ymateb.

Ymyriadau arfaethedig

Rhwydwaith Siopau Cymunedol Llanelli

Dysgu oddi wrth lwyddiant mewn manau eraill - siopau/caffis cymunedol - mae'r ymyriad hwn yn cynnwys targedu sefydlu rhwydwaith o amwynderau cymunedol di-elw mewn ardaloedd penodol gan ddefnyddio adeiladau sydd ar gael. Dylai dull rhwydwaith arwain at economïau o raddfa mewn prynu a rhannu elw.

Bydd Ariannu RDP a chymorth datblygu Sefydliad Plunkett yn ffocws er mwyn rhoi cychwyn ar bethau.

Gwybodaeth am newidiadau bysiau ac ymateb trafnidiaeth leol integredig

Cynhyrchu a chyhoeddi crynodeb o newidiadau diweddar ac esboniad o wneud penderfyniadau.

Cynllun trafnidiaeth integredig gymunedol (seiclo, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus) gydag opsiynau ar gyfer gwella gwasanaeth.

Partneriaid – Grwpiau cymunedol, pobol leol, Sefydliad Trafnidiaeth Cymunedol.

Mesuriadau cynnydd – Cynnydd yn y gwariant lleol.

Blaenoriaethau Lleol - Bynea, Pum Heol, Maengwynne, Ponthenri a Pwll.